

## **COFNODION CYFARFOD ARBENNIG PWYLLGOR CYLLID A DATBLYGU IONAWR 26 2021**

### **1. Ymddiheuriadau :-** Cyng. Simon Brooks

**Presennol :** Cyngorwyr: Gwilym Jones ( Cadeirydd), Selwyn Griffiths, Ian Jones, Nia Jeffreys, , Aled Griffith, Jason Humphreys ( Cyng. Richard Williams fel sylwebydd)  
Marian Roberts ( Clerc)

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd y Cyng. Gwilym Jones.

### **2. Archwilio'r cyfrifon.**

(Mantolen hyd at 19 o Ionawr 2021 ynghlwm).

Adroddwyd fod sefyllfa ariannol y Cyngor yn dderbyniol.

**Penderfynwyd :** Derbyn y wybodaeth yn ôl cynnig y Cyng. Selwyn Griffiths , Cyng. Aled Griffith yn eilio.

### **3. Praesept 2021/2022.**

Yn dilyn y Cyfarfod Arbennig ar 21.1.21 cadarnhaodd y Clerc ei bod wedi gyrru cadarnhâd i Gyngor Gwynedd fod y Praesept yn aros yr un fath eto eleni sef £62,581.43.

### **4. Penodi Archwiliwr Mewnol am 2020/21**

Cadarnhaodd y Clerc iddi dderbyn ebost gan Rhys Bleddyn yn cadarnhau bod Gwasanaeth Archwilio Mewnol Gwynedd wedi cytuno i ymgymryd â'r gwaith o archwilio llyfrau'r Cyngor am 2020-21.

### **5. Biliau i'w talu - gwariant disgwylidig:**

Xerox	Rhent llungopiwr 1.2.21 – 30.4.21	£ 126.00
Scottish Power	Golau Nadolig 18.9.20 – 23.12.20	£ 210.80
Yr Wylan	Hysbyseb Ceisadau Ariannol Ionawr	£ 16.00

Awdurdodwyd y taliadau i Xerox a'r Wylan.

Disgwylir bil terfynol er mwyn cau'r cyfri goleuadau Nadolig efo Scottish Power.

### **6. Ceisiadau/ materion Cynllunio :**

Roedd Cyng. Jason Humphreys a Cyng. Nia Jeffreys yn datgan nad oeddent wedi astudio'r ceisiadau cynllunio canlynol ac o'r herwydd yn atal eu sylwadau.

#### **a) Rhif Cais : C20/1094/44/LL**

Lleoliad: Greenacres Holiday Park Black Rock Sands, Morfa Bychan, Gwynedd, LL49 9YF

Bwriad: Gosod caban derbyn gyda isadeiledd cysyllteidig a gwaith tirlunio atodol

**Penderfynwyd :** dim gwrthwynebiad i'r cais.

#### **(b)**

#### **DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990 - Apêl o dan Adran 78(i)**

#### **Rhif Achos APP/Q6810/D/20/3266093**

Lleoliad: Bryn Coed Ffordd Y Borth, Borth Y Gest, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9TP

Manylion : Cais ar gyfer codi estyniadau i'r eiddo yn gynnwys codi lefel y to er mwyn creu llawr cyntaf (cais diwygiedig)

**Penderfynwyd :** gwrthwynebu'r cais ar sail gorddatblygiad a'i fod yn amharu ar fwynderau trigolion cyfagos.

#### **(c) Rhif Cais.: C21/0026/44/LL**

Lleoliad O.J Jones & Son Yard Snowdon Street, Porthmadog,

Bwriad :Adeiladu adeilad ffram porthol ar gyfer storio cyffredinol yn gysylltiedig gyda busnes cludiant presennol

**Penderfynwyd :** dim gwrthwynebiad i'r cais.

## 7. Unrhyw fater arall

### Cynnig Cyng Aled Griffith :-

#### Côst a chytundebau goleuo'r ardal dros y Nadolig –

Eleni oherwydd Covid ni cynhaliwyd unrhyw weithgareddau cymunedol yn Nhremadog gan Grwp Tremadog 200. Oherwydd hyn fe benderfynwyd peidio talu'r yswiriant digwyddiadau a oedd yn arbed £500.00 i'r Grŵp. Yr un weithgaredd yr oeddwn am gyflawni oedd goleuo Sgwâr Tremadog dros y Nadolig, felly codi yswiriant am fis i'r eitem yma. Y gost oedd £250.00.

Felly:-

- A oes bosib cael `break down` o gostau goleuo ardal Porthmadog/Morfa Bychan/Borth y Gest a Thremadog dros yr ŵyl,?
- Pa gytundebau sydd rhwng Cyngor Tref Porthmadog â grwpiau eraill sydd yn gyfrifol am oleuo'r ardal?
- A oes posib cael cytundeb cyfartal i bob ardal?

Nodwyd fod y tabl cymharu prisiau wedi cael ei ddiwygio fel a ganlyn :-

		2019	2020
Penrhyn Hire	Cherry picker	£ 126.72	£ 158.40
Glasfryn	Coed Nadolig	£ 951.00	£ 850.80
R J Electrics	Profi a gosod goleuadau	£ 840.00	
R J Electrics	Gosod goleuadau stryd	£ 5239.20	£ 5504.11
Litemania	Bulbs a harness golau parc	£ 305.10	
R J Electrics	Goleuadau Nadolig		£ 3096.48
R J Electrics	Tensile load testing		£ 774.00
R J Electrics	Trwsio goleuadau a bulbiau newydd		£ 592.56
Gareth Griffiths	Gosod golau coed Nadolig	£ 840.00	I'w gadarnhau
Scottish Power	Cyflenwad trydan coeden Capel Salem	£ 103.36	£ 68.23
Cyngor Gwynedd	Gosod a thynnu coed Nadolig	£ 2727.48	£2439.60 (1.4.20)
<b>CYFANSWM</b>		<b>£ 11,132.86</b>	<b>£13484.18</b>

Eglurodd y Clerc na thalwyd bil Cyngor Gwynedd am Nadolig 2018 tan Ebrill 2019 a bil Nadolig 2019 ar 1.4.20. Disgwylir mwy o wariant Nadolig felly yn y flwyddyn ariannol nesaf yn Ebrill 2021.

Mae sefyllfa bilau Scottish Power ar fin cael ei ddatrys.

Cytunwyd mai eiddo Cyngor Tref Porthmadog ydi'r goleuadau Nadolig ac mai ar gyfer y Stryd Fawr y maent wedi eu cynllunio. Pan holwyd os yw'r cyhoedd yn ymwybodol mai'r Cyngor Tref sy'n darparu ac yn talu am y goleuadau eglurwyd fod erthyglau a lluniau wedi bod yn Yr Wylan a'r Cambrian News yn datgan hyn gyda'r Cyng Nia Jeffreys yn diolch yn gyhoeddus amdanynt. Manteisiodd ar y cyfle i ddiolch unwaith eto i'r Cyngor ar ran Caru Port.

Cytunwyd mai anodd fyddai rhannu goleuadau Nadolig i bob ardal o Borthmadog ac mai'r ateb efallai i Tremadog 200 fyddai gwneud apêl am fwy o arian drwy gyfrwng y ceisiadau ariannol er mwyn cael cyfraniad mwy sylweddol i ariannu goleuadau Nadolig Tremadog ar gyfer y dyfodol.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.50 y.h.

Marian Roberts  
28.1.2021

